# Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021

**2021 dsc 2**

*Cyffredinol*

**16 Dehongli**

Yn y Ddeddf hon—

ystyr "coronafeirws" ("*coronavirus*") yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);

ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" ("*primary legislation*") yw—

(a) Mesur a basiwyd o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);

(b) Deddf a basiwyd o dan Ran 4 o'r Ddeddf honno;

(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig;

mae i "etholiad 2021" ("*the 2021 election*") yr ystyr a roddir gan adran 1;

ystyr "Gorchymyn 2007" ("*the 2007 Order*") yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236);

ystyr "y Llywydd" yw Llywydd Senedd Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 16 mewn grym ar 17.3.2021, gweler **a. 18**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, Adran 16.